

Astudiaeth Achos

Dyma Ni

RAY Ceredigion

Cefndir

Prosiect peilot oedd Dyma Ni gyda'r nod o gefnogi pobl anabl rhwng 17-30 oed. Deilliodd y prosiect o fwlch canfyddedig yn y gefnogaeth i bobl ifanc ag anableddau yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, wrth i bobl ifanc ag anableddau gyrraedd 18 oed, mae gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael sy'n hwyluso integreiddio cymdeithasol.

Cyfranogwr 7

Fel rhan o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Wavehill, crëwyd 3 astudiaeth achos unigol. Mae pob un wedi'i ddewis i gynrychioli rhai agweddau allweddol o'r prosiect, yn ogystal ag ar gyfer enghraifft o effeithiau a chanlyniadau sydd wedi deillio o fod yn rhan o Dyma Ni.

I riant Cyfranogwr 7, mae Dyma Ni wedi chwarae rhan enfawr wrth ddatblygu eu hannibyniaeth, aeddfedrwydd a meddylgarwch. Mae cymryd rhan yn Dyma Ni ar gyfer Cyfranogwr 7 wedi rhoi'r rhyddid a'r hyder iddynt ddal y bws i'r sesiynau grŵp bob wythnos, yn ogystal â siopa i'r teulu ar y ffordd adref, rhywbeth y mae eu rhiant yn ei weld fel y gallant ddatblygu ystyriaeth ar gyfer ei teulu a'r rôl y maent yn ei chwarae ynddo:

"Mae o wedi ennill dipyn o annibyniaeth. Mae'n neis ei fod yn eitha lleol achos mae'n gallu dal bws ar ei ben ei hun ac yn hyderus iawn yn mynd i Aberaeron a nôl siopa ar y ffordd adref wedyn... Mae'n hyfryd gweld ei fod yn gallu cynllunio a gwneud pethau ar ei ben ei hun, pethau sy'n ddefnyddiol i ni. [Mae'r cyfranogwr] wedi dod yn llawer mwy annibynnol a meddylgar."



Mae Dyma Ni hefyd wedi rhoi cyfle i Gyfranogwr 7 gymysgu a chymdeithasu gyda phobl o'r un oedran â nhw a datblygu cyfeillgarwch o ganlyniad. Mae'r rhiant yn disgrifio sut maen nhw nawr mewn cysylltiad â'u ffrindiau bob dydd.

Fel rhan o'r gwaith gyda Dyma Ni, mae rhiant Cyfranogwr 7 yn disgrifio sut mae ganddyn nhw lyfryn portffolio o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni ac yn ei fwynhau fel rhan o Dyma Ni. Mae hyn yn helpu'r teulu i gadw mewn cysylltiad â diddordebau a gweithgareddau'r cyfranogwr yn y prosiect.

Datblygiad cadarnhaol ers i'r cyfranogwr fod yn rhan o'r prosiect oedd eu bod wedi cofrestru ar gyfer prosiect lleoliad gwaith. Roedd hyn yn caniatáu i'r cyfranogwr sicrhau ychydig o swyddi lleol a nododd eu rhiant eu bod wedi gwneud cais am rôl barhaol o fewn busnes lleol ers hynny. Unwaith eto, nodwyd bod hyn yn ddyledus ac wedi helpu i gynyddu eu hyder:

"Fe gofrestrodd i brosiect arall oedd yn edrych am leoliadau gwaith iddo, felly bu'n gweithio i [busnes lleol] am gyfnod ac yn [busnes lleol]. Mae'n fwy a fwy hyderus nawr ac mae yn y broses o wneud cais am swydd yn [busnes lleol], lle gallant gefnogi ei rôl. Byddai hynny'n ffordd arall iddo gwrdd â phobl o oedran tebyg a datblygu cyfeillgarwch go iawn fel y mae pawb arall yn ei wneud."

Yn ystod cyfnod cloi COVID-19 nododd rhiant Cyfranogwr 7 eu bod wedi llwyddo i ddod o hyd i bethau iddynt eu gwneud o amgylch y tŷ, gan eu bod yn hoffi cael eu cadw'n brysur. Ar ben hynny, roedd y gweithiwr prosiect yn cysylltu â'r cyfranogwr bob yn ail wythnos i wirio arnynt a sut yr oeddent. Roedd hyn, yn eu barn nhw, wedi lleihau effaith cyfyngiadau COVID-19 ar y cyfranogwr.

Mae'r teulu'n gweithio i helpu i gynyddu a datblygu'r annibyniaeth a sefydlwyd o fewn y cyfranogwr; er enghraifft, pan fyddant yn mynd i siopa, maent yn sicrhau eu bod hefyd yn dod ond bod ganddynt eu troli eu hunain er mwyn cael profiad o siopa'n annibynnol. Nodwyd nad oeddent yn aml wedi sylwi ar yr hyn y gallai'r cyfranogwr ei wneud, ond amlygwyd hyn trwy eu cyflawniadau yn Dyma Ni, fel y mae'r dyfyniad a ganlyn yn ei awgrymu:

"Gyda'r ffordd y mae'n dod yn ei flaen, mae'n amlwg yn rhoi boddhad rhywbeth i roi'r hyder iddo gyrraedd carreg filltir newydd bob mis. Weithiau doeddwn i ddim yn sylweddoli nad oedd wedi cyrraedd yno'n barod - mae'n meddwl drosto'i hun llawer mwy. Yn lle ddweud wrtho beth sydd angen iddo ei brynu ar gyfer anrhegion Nadolig, bydd yn eu prynu ei hun neu'n mynd i siopa i ni ar y ffordd adref i'n helpu."

Mae rhiant Cyfranogwr 7 yn teimlo, heb Dyma Ni, y byddai'r cyfeillgarwch a sefydlwyd o fewn y grŵp yn dod i ben a byddai ganddynt lai i'w cadw'n brysur. Maen nhw'n gweld Dyma Ni fel cyfle gwych i bobl ifanc lleol ac yn nodi y byddai'n dda pe bai'r profiad yn agored i fwy o bobl yr ardal.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

